



**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL**  
**RHONDDA CYNON TAF**  
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR**

C Hanagan  
Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf  
Y Pafiliynau  
Parc Hen Lofa'r Cambrian  
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Hannah Williams - Uned Busnes y Cyngor - Gwasanaethau Llywodraethol  
(01443 424062)

Bydd cyfarfod o'r **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** yn cael ei gynnal yn **Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany, CF40 2XX** ar **DYDD IAU, 18FED GORFFENAF, 2019** am **5.00 PM**.

MAE MODD I AELODAU NAD YDYN NHW'N AELODAU O'R PWYLLGOR AC AELODAU O'R CYHOEDD OFYN I ANNERCH Y PWYLLGOR YN YSTOD Y CYFARFOD SY'N YMWNEUD Â'R MATER SYDD WEDI'I NODI. RYDYN NI'N GOFYN EICH BOD CHI'N RHOI GWYBOD AM EICH BWRIAD I SIARAD DRWY E-BOSTIO **[GWASANAETHAUCYNLLUNIO@RCTCBC.GOV.UK](mailto:GWASANAETHAUCYNLLUNIO@RCTCBC.GOV.UK)** ERBYN 5PM AR DYDD MAWRTH, 16 GORFFENAF 2019, GAN NODI A FYDDWCH CHI'N SIARAD YN GYMRAEG NEU'N SAESNEG.

MAE'N BOSIB BYDD TREFN YR AGENDA'N NEWID ER MWYN HWYLUSO BUSNES Y PWYLLGOR.

**AGENDA**

**Tudalennau**

**1. DATGAN BUDDIANT**

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

**Noder:**

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

## **2. DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU**

Nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu materion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

## **3. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

Nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

## **4. COFNODION**

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2019 yn rhai cywir.

**5 - 16**

## **CEISIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER EU CYMERADWYO GAN Y CYFARWYDDWR MATERION FFYNIANT A DATBLYGU**

### **5. CAIS: 19/0218**

Newid defnydd dwy ystafell o fewn annedd C3 presennol i A3 caffi/siop goffi, 7 Heol Caerdydd, Ffynnon Taf, Caerdydd, CF15 7RA.

**17 - 24**

## **CEISIADAU A ARGYMHELLWYD I'W GWRTHOD GAN Y CYFARWYDDWR MATERION FFYNIANT A DATBLYGU**

### **6. CAIS: 19/0405**

Newid defnydd llawr gwaelod o Breswyl (C3) i Gaffi (A3) a llunio blaen siop cysylltiedig, 19 Heol Ynysmeurig, Abercynon, Aberpennar, CF45 4SY.

**25 - 32**

## **CEISIADAU WEDI'U GOHIRIO**

### **7. CAIS: 18/1346/10**

Datblygiad preswyl arfaethedig 120 uned, gyda gwaith tirlunio a pheirianeg gysylltiedig, hen safle Ysgol Gyfun Blaengwawr, Club Street, Aberaman, Aberdâr, CF44 6TN.

**33 - 66**

**8. CAIS: 19/0281/10**

Ôl-gais am ganiatâd ar gyfer patio uchel, 24 Teras Arfryn, Tylorstown, Glynrhedynog, CF43 3DR.

**67 - 74**

**9. CAIS: 17/0693/10**

Hazelwood Carpentry, gweithdy a swyddfeydd deulawr newydd arfaethedig (derbyniwyd cynllun lleoliad diwygiedig 11 Ebrill 2018). Llain D9, Heol Crochendy, Ystad Ddiwydiannol Trefforest.

**75 - 94**

**ADRODDIAD ER GWYBODAETH**

**10. GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

Rhoi gwybod i Aelodau am y canlynol, ar gyfer y cyfnod 24/06/2019 - 03/07/2019:

Penderfyniadau Cynllunio a Gorfodi – Apeliadau a Dderbyniwyd.  
Penderfyniadau Dirprwyedig – Ceisiadau wedi'u cymeradwyo a'u gwrthod gyda rhesymau.  
Trosolwg o Achosion Gorfodi.  
Penderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig.

**95 - 108**

**11. MATERION BRYS**

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn rhai brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

**Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu**

**Cylchrediad:-**

**Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu:**

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu  
(Y Cynghorydd S Rees a Y Cynghorydd G Caple)

Y Cynghorydd J Bonetto, Y Cynghorydd P Jarman, Y Cynghorydd D Grehan,  
Y Cynghorydd G Hughes, Y Cynghorydd J Williams, Y Cynghorydd S Powell,  
Y Cynghorydd W Owen, Y Cynghorydd R Yeo ac Y Cynghorydd D Williams